## Gweithrediad y Pwyllgor Archwilio

### Nodiadau'r Cadeirydd

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu fy argymhellion ynghylch cynnal gwaith arferol y Pwyllgor Archwilio.

### Cyfrifoldebau

2. Disgrifir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12 (sef Atodiad A i'r papur hwn). Yn fras, casglu tystiolaeth ar sail adroddiadau a baratowyd gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad yw rôl y Pwyllgor. Bydd yr Archwiliwr Cyffredinol yn adrodd o dro i dro ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar sail ei ymholiadau yn adrodd i ba raddau y mae'r Cynulliad yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill wedi defnyddio'u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau yn y modd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon.

3. Disgwylir i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd anwleidyddol gan ganolbwyntio nid ar rinweddau amcanion polisi ond ar y graddau y mae'r corff o dan sylw wedi llwyddo i ddefnyddio'i adnoddau mewn modd priodol ac addas ac wedi sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni eu swyddogaethau.

### Cyfarfodydd

4. Adroddiadau archwilio neu adroddiadau gwerth am arian gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru fydd prif ganolbwynt cyfarfodydd y Pwyllgor. Gyda chefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, bydd yr Archwiliwr Cyffredinol yn darparu briffiau a chyngor i'r Pwyllgor Archwilio ar eu hadroddiadau. Bydd Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn ogystal ag aelod hn o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd, a gall y Pwyllgor Archwilio geisio eglurhad ganddynt ar y rhannau o'r adroddiad sy'n cael eu trafod.

5. Bydd perthynas weithio effeithiol hefyd yn angenrheidiol rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Ysgrifennydd Cyllid. Yn unol â'r Ddeddf, ni all yr Ysgrifennydd Cyllid fod yn aelod hefyd o'r Pwyllgor Archwilio. Bwriad y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod polisi ac archwilio yn cael eu cadw ar wahân. Fodd bynnag, bydd aelod hn o staff yr Ysgrifennydd Cyllid, sef Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i ateb cwestiynau ar bolisi a threfniadaeth cyllid.

6. Disgwylir i'r Pwyllgor gyfarfod y tu allan i Gaerdydd o leiaf unwaith y flwyddyn. Disgwylir y

bydd y Pwyllgor yn cynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus, cyn belled ag y bo modd.

**Tystiolaeth**

7. Mae cyfarfodydd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gasglu tystiolaeth o blith y Swyddogion Cyfrifo a swyddogion hn eraill sydd â chyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r materion o dan sylw.

8. Gall y Pwyllgor Archwilio hefyd wysio tystion neu fynnu gweld dogfennau yn unol ag Adran 74 y Ddeddf. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r Pwyllgor ddefnyddio'r ddarpariaeth hon oni bai y gwrthodwyd gwahoddiad i roi tystiolaeth.

9. Gyda chefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, bydd yr Archwiliwr Cyffredinol yn barod i ddatblygu'r brîff hwn er mwyn cwrdd ag anghenion Aelodau yng ngoleuni eu profiad a byddent yn croesawu unrhyw sylwadau adeiladol gan Aelodau.

10. Cynhelir ychydig funudau cyntaf y cyfarfodydd casglu tystiolaeth yn gudd gyda'r Archwiliwr Cyffredinol yn ogystal â swyddogion y Swyddfa Archwilio Cyffredinol er mwyn paratoi ar gyfer casglu tystiolaeth (Rheolau Sefydlog 12.6 a 8.21 (vi)). Bydd hyn yn gyfle i Aelodau i geisio eglurhad ar unrhyw agwedd o'r brîff.

**Adroddiadau**

11. Ar ôl cymryd y dystiolaeth, bydd yr Ysgrifenyddiaeth, ar ôl cymryd cyngor gan yr Archwiliwr Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Gyffredinol, yn paratoi adroddiad ar gyfer y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo. Yn unol ag argymhellion Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, dylai'r Pwyllgor Archwilio geisio am unfrydedd wrth lunio'i adroddiad. Er nad oes gan y Pwyllgor ber gweithredol, a'i fod ond yn gallu gwneud argymhellion neu ddatgan barn, bydd ei adroddiadau i'r Cynulliad yn cario cryn bwysau.

12. Gan amlaf bydd adroddiadau yn cynnwys casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn ogystal â chofnod air am air o unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd ac unrhyw femorandwm a gyflenwyd gan y tyst mewn ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth atodol. Unwaith y cytunir arnynt, cyflwynir yr adroddiadau gerbron y Cynulliad a'u cyhoeddi. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi cyngor yngln â chyhoeddusrwydd fel bo'n briodol.

13. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd anfon copi o'i adroddiad i'r Prif Ysgrifennydd. O fewn mis ar ôl i'r Prif Ysgrifennydd dderbyn yr adroddiad rhaid i un o Ysgrifenyddion y Cynulliad, ar ran Cabinet y Cynulliad, gyflwyno'u hymateb i adroddiad y Pwyllgor, gerbron y Cynulliad. Os yw'r ymateb hwnnw'n ymateb interim, yna rhaid i'r Ysgrifennydd Cynulliad gyflwyno ymateb terfynol gerbron y Cynulliad o fewn dau fis. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth a'r Archwiliwr Cyffredinol neu'r Swyddfa

Archwilio Genedlaethol yn sefydlu trefn ar gyfer monitro cynnydd gydag argymhellion y Pwyllgor.

**Rhaglen waith ar gyfer 1999-2000**

14. Yn ôl Rheol Sefydlog 12.6 caniateir i'r Pwyllgor benderfynu ar ei raglen waith ar ôl ymgynghori ag Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Ceir rhestr o sesiynau arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 1999-2000 yn Atodiad A.

15. Ni fydd yn bosibl penderfynu ar raglen waith derfynol ymhell ymlaen llaw gan fod dyddiadau cyhoeddi adroddiadau'r Archwiliwr Cyffredinol yn ddibynnol ar y swyddogion perthnasol ac y gellir ond eu hystyried fel dyddiadau dros dro hyd yn hyn. Mae'n bosibl y gall gwaith brys a all effeithio ar y rhaglen godi hefyd. Bydd gan y Pwyllgor gyfle i ystyried ei raglen waith yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

16. Seilir y rhestr yn Atodiad B ar waith sydd eisoes ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Trafodir rhaglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn y cyfarfod heddiw. Fodd bynnag, mae'r cyfnod rhagarweiniol hir yn golygu na fydd adroddiadau'r ymchwil hwn ar gael i'r Pwyllgor ei drafod tan yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

17. Yn ôl Rheol Sefydlog 12.2 caniateir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar waith y Pwyllgor. Mae Rheol Sefydlog 6.5 yn caniatáu i amser gael ei neilltuo yn ystod pob cyfnod o 12 mis er mwyn i'r Cynulliad drafod adroddiadau a gyflwynwyd gerbron iddo gan y Pwyllgor yn ystod y 12 mis blaenorol. Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried amseriad ei adroddiad blynyddol maes o law.

18. Unwaith bydd y Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu ar ei raglen waith, bydd yn rhoi gwybod i'r Cynulliad a'r pwyllgorau eraill. Yn San Steffan, mae'n arferol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gael yr hawl i drafod rhai materion o flaen pwyllgorau eraill. Mae'r egwyddor na all pwyllgorau eraill achub y blaen ar archwilio rhai agweddau ar wariant y Cynulliad, na defnyddio adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn un gwerthfawr.

19. Rwy'n gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar y cynigion a amlinellir uchod.

**Atodiad A**

**Sesiynau Arfaethedig y Pwyllgor Archwilio 1999-2000**

| | |
|---|---|
| Prynhawn 21 Medi | Amcangyfrif gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaglen archwilio gwerth am arian |
| 14 Hydref | FE Cymru */ Cadw |
| 18 Tachwedd | |
| Tachwedd | Ymweliad gan PAC |
| 16 Rhagfyr | Cadw / FE Cymru* |
| Ionawr | Cyfuno gydag Awdurdod Datblygu Cymru |
| Chwefror | Adroddiad Cyffredinol ar Gyfrifon Cymru 1998-99 |
| Mawrth | Crynodeb o gyfrifon yr NHS 1998/99* |

*Byddwn yn ceisio cytundeb Cadeirydd PAC i sicrhau bod adroddiadau'r Pwyllgor a'r Archwilydd Cyffredinol ar gael i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.